# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 18 Mawrth 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(187)v6

1 **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am honiadau gan y Prif Weinidog na fydd Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol am dalu costau sy'n gysylltiedig â thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd?

2 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau**
**NDM5471 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol

Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) yn aelod o, ac yn Gadeirydd i, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru).

3 **Dadl: Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (60 munud)**
**NDM5462 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Mae'r Adroddiad ar gael ar y ddolen ganlynol:
http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/localgov/140305-expert-group-report-cy.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i annog amgylcheddau gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd, ac ystyried canfyddiadau'r adroddiad ynghylch argaeledd gofal plant, amser cyfarfodydd ac awyrgylch cyfarfodydd cyngor.

4 **Dadl: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)**
**NDM5463 Lesley Griffiths (Wrecsam)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.
Mae manylion Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i'w gweld yn:
http://wales.gov.uk/legislation/programme/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon a godwyd am nifer y biliau fframwaith sy'n cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon a godwyd am nifer yr achlysuron lle y mae proses ddeddfwriaethol safonol y Cynulliad wedi cael ei chwtogi.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder y duedd ddiweddar o ran biliau fframwaith, a deddfwriaeth llwybr carlam a deddfwriaeth frys, sy'n tanseilio'r gallu i graffu'n effeithiol ar ddeddfwriaeth ac i sicrhau atebolrwydd democrataidd cryf.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno Bil ar Anghenion Addysgol Arbennig o fewn y flwyddyn nesaf.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod llwyddiant y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn dibynnu ar Raglen Lywodraethu gynhwysfawr ac ystyrlon.

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cael ei chyfyngu pan fydd deddfwriaeth y

llywodraeth yn cael ei chyfeirio at y Goruchaf Lys.

**Cyfnod Pleidleisio**

5 **Dadl y Cyfnod Adrodd ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (150 mins)**
Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y cafodd yr adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt eu rhestru yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 a gytunwyd gan y Cynulliad ar 11 Mawrth 2014.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Egwyddorion statudol**

106

**2. Technegol**

11, 22, 23, 24, 25, 43, 52, 55, 56, 57, 58, 97, 60, 63, 64, 65, 66, 69, 70, 83, 84, 85, 87, 91, 10

**3. Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig**

7, 8, 9

**4. Asesiad o'r camau sydd angen eu cymryd i ddarparu gwasanaethau mewn ieithoedd heblaw Saesneg**

1*, 1A*

**5. Gofal a chymorth yn y cartref**

108, 114

**6. Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy hygyrch**

101

7. Gwrthod asesiad o anghenion

12, 13, 14, 15, 16, 17, 18

8. Cyfuno asesiadau o anghenion ac asesiadau eraill

19, 20, 21

9. Rheolidau ynghylch asesu

113

10. Dyfarnu cymhwystra

109

11. Contractau dim oriau

102, 103, 105

12. Dyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth gofalwyr

26, 27, 28, 29, 30, 50

13. Taliadau uniongyrchol

31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42

14. Gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi

44, 45, 46, 47, 48, 49

15. Cytundebau ar daliadau gohiriedig ac adennill costau

51, 53

16. Trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd

54

17. Apelio yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol

110, 111, 107

**18. Hyrwyddo a chynnal cyswllt rhwng plentyn a theulu**

59

**19. Trefniadau byw ôl-18**

2, 3, 4

**20. Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 4**

61

**21. Trefniadau i helpu plant i fyw y tu allan i Loegr a Chymru**

62

**22. Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol**

98, 99, 100

**23. Dehongli carchar a charchar sydd wedi ei gontractio allan at ddibenion adran 156**

67, 94

**24. Diffiniad o lesiant at ddibenion Deddf Plant 2004**

68

**25. Gwasanaethau mabwysiadu**

112, 6

**26. Dyletswyddau awdurdod lleol mewn perthynas â'r rhai sy'n gadael gofal sydd mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth etc**

71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 78, 79, 80, 81, 82

**27. Methiant darparwr**

86, 88, 89, 90

**28. Adolgyiad o'r Deddf**

118, 119, 115, 116

**29. Adolygiad o’r galw yn y dyfodol am ofal iechyd a chymdeithasol**

120, 117

**30. Dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion a ddiffiniwyd**

92, 93, 96, 95

*Grwp 4:

Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu gwaredu yn y drefn 1A, 1

(Gwelliant 1 yw’r prif welliant yn y grŵp)

**Dogfennau Ategol**

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), fel y’i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3
Memorandwm Esboniadol, diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2
Rhestr o Welliannau wedi’u Didoli
Grwpio Gwelliannau

6 **Dadl Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (15 munud)**

Ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd caiff y Dirprwy Weinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 19 Mawrth 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Mawrth 2014 i'w hateb ar 18 Mawrth 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(4)1570(FM)

2. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru dros ddiogelwch gwylwyr mewn digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)1559(FM)

3. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Beth yw llwyddiant mwyaf Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(4)1569(FM)**W**

4. **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phrinder staff yn y GIG sy'n gallu siarad Cymraeg? OAQ(4)1562(FM)**W**

5. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu i awdurdodau lleol o ran pennu eu cynlluniau cyllideb? OAQ(4)1561(FM)

6. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog nodi pryd y bydd y Bil Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei gyflwyno? OAQ(4)1558(FM)

**7. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu addysg am ddim i blant tair oed? OAQ(4)1560(FM)

**8. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion mewn cysylltiad â'r hyn a elwir yn gyffuriau anterth cyfreithlon? OAQ(4)1568(FM)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffioedd a delir i sefydliadau allanol i reoli rhaglenni sy'n gysylltiedig â'i strategaeth yn erbyn tlodi? OAQ(4)1554(FM)

**10. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i awdurdodau addysg lleol i ddelio â sefyllfaoedd lle mae amgylchiadau ariannol yn creu anhawster i gydymffurfio â rheolau gwisg ysgol? OAQ(4)1567(FM)**W**

**11. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)1555(FM)

**12. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran trafnidiaeth integredig yng Nghymru? OAQ(4)1565(FM)

**13. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwariant ar iechyd yng Nghymru? OAQ(4)1552(FM)

**14. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi economi gorllewin Cymru? OAQ(4)1553(FM)

**15. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio gwyddoniaeth i wella'r economi? OAQ(4)1566(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Dydd Mawrth 25 Mawrth 2014 a dydd Mercher 26 Mawrth 2014**
**Dydd Mawrth 1 Ebrill 2014 a dydd Mercher 2 Ebrill 2014**
**Toriad: Dydd Llun 7 Ebrill 2014 - dydd Sul 27 Ebrill 2014**
**Dydd Mawrth 29 Ebrill 2014 a dydd Mercher 30 Ebrill 2014**
***********************************************************************

**Dydd Mawrth 25 Mawrth 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Datganiad Polisi am yr Iaith Gymraeg ( 30 munud)
- Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Dadl: Darparu Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (60 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â Thai (60 munud)
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Addysg (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mercher 26 Mawrth 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

  **NNDM5464**

  **Mick Antoniw (Pontypridd)**

**Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ymrwymo i chwarae ei ran lawn mewn materion Ewropeaidd; ac yn benodol:

a) yn cydnabod y gwerth i Gymru ac i'r UE yn sgïl ymgysylltu cadarnhaol Cymru yn Ewrop;

b) yn defnyddio sgiliau, profiad ac arloesedd y Llywodraeth a phobl Cymru i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, ffyniant economaidd a llywodraethu democrataidd ledled Ewrop.

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Julie James (Gorllewin Abertawe) (30 munud)

**Dydd Mawrth 1 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynnydd o ran Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol (30 munud)
- Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor Cynghori Ar Brisio Gwelliannau a Materion Hawliau Tenantiaid) 2014 (15 munud)
- Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru) (60 munud)

**Dydd Mercher 2 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i rywogaethau goresgynnol estron (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 29 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Cymeradwyo 'Cynllun Hawliau Plant 2014' drafft o dan y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (60 munud)
- Dadl: Ail adroddiad Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 30 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)